# Astudiaeth achos: Defnydd o’r grant dysgu proffesiynol ychwanegol yn 2019/20

## Cyd-destun a chefndir

### Yr ysgol

Ysgol Gynradd cyfrwng Saesneg yng Nghaerffili yw Ysgol Gynradd y Coed Duon ac mae’n rhan o Wasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru. Mae 456 o ddysgwyr ar y gofrestr ar hyn o bryd: mae 23% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (FSM); mae gan 15% anghenion dysgu ychwanegol (ADY); mae gan 6% Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL) ac ystyrir bod 39% yn fwy galluog a thalentog. Rhaniad rhyw yr ysgol yw 53.5 y cant yn fechgyn a 46.5 y cant yn ferched.

### Arweinwyr dynodedig ac aelodau o staff addysgu

Mae gan yr ysgol 16 o athrawon a phedwar arweinydd dynodedig, wedi’u cefnogi gan ddau gynorthwyydd addysgu lefel uwch a 14 o gynorthwywyr addysgu.

### Swm y grant dysgu proffesiynol ychwanegol

Cafodd Ysgol Gynradd y Coed Duon £18,128 ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr 2019 ac Ebrill 2020.

## Sut y defnyddiwyd y grant ychwanegol

Defnyddiwyd y cyllid grant i ddatblygu ymhellach gallu’r ysgol i addasu i’r cwricwlwm newydd trwy arweinyddiaeth o ansawdd uchel a dysgu ar y cyd.

Adolygodd y tîm arwain gryfderau a meysydd i’w datblygu yr ysgol ac ystyriodd ei blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf yng nghyd-destun datblygiad cenedlaethol a’r cwricwlwm newydd. Trwy ymgynghori â staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni, datblygwyd a lluniwyd gweledigaeth, nodau strategol ac amcanion yr ysgol ganddynt.

Er mwyn mynd i’r afael â’r amcanion, datblygodd yr ysgol bolisi dysgu proffesiynol i ddarparu fframwaith a fydd yn allweddol i ddatblygu cwricwlwm newydd a gwella deilliannau dysgwyr mewn llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a sgiliau dysgu annibynnol.

Trwy ymgysylltu â Fframwaith Rhagoriaeth mewn Addysgu a Dysgu y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, cyflwynwyd yr holl staff i'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth a mynychodd rhai staff yr hyfforddiant i gefnogi'r ysgol gyfan a chreu taith ddysgu proffesiynol i staff unigol.

Ochr yn ochr â hyn, cynhaliwyd cyfres o sesiynau datblygu proffesiynol staff i'r holl aelodau staff a chynhaliwyd cyfarfodydd gydag aelodau staff unigol i greu diwylliant dysgu parhaus i bawb.

Mae'r holl aelodau staff wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu arweinyddiaeth gan gynnwys mynd ar wahanol gyrsiau Gwasanaeth Cyflawni Addysg a chydweithio ag ysgolion eraill i ddatblygu sgiliau arwain unigolion sy'n briodol i'w cam datblygu personol.

Mae dyddiaduron dysgu a myfyrdodau yn helpu ymarferwyr nid yn unig i ystyried sut mae dysgu proffesiynol yn effeithio ar eu harferion eu hunain ond hefyd sut y gallan nhw helpu aelodau eraill o staff.

Mae'r Dirprwy Bennaeth, yn rhinwedd ei swyddogaeth fel yr arweinydd dysgu proffesiynol, wedi bod i'r holl ddiwrnodau hyfforddi ac wedi rhannu negeseuon allweddol ac adborth gyda'r staff. Mae wedi bwrw ymlaen â nifer o fentrau i helpu'r ysgol a'i pharatoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae wedi cymryd rhan mewn cylch ymholi (CCPE) gydag ysgolion cynradd eraill yn y clwstwr a Phrifysgol Stirling gan roi pwyslais ar wyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM). Defnyddiwyd y model Gwersi Astudio gyda thriawdau mathemateg ac mae wedi helpu'r ysgol i wneud gwaith ymchwil gweithredol a datblygu addysgeg.

Mae timau bach o athrawon a chynorthwywyr addysgu wedi gweithio ar brosiectau ymholi beirniadol sydd wedi arwain at bosteri proffesiynol sy'n dangos y gwaith ymchwil y tu ôl i arloesedd.

## Effaith y grant ar gydweithwyr ar draws yr ysgol

Crëwyd diwylliant o newid sy'n cefnogi gweledigaeth yr ysgol, trwy arloesedd a chymryd risgiau a gefnogir.

Rhannwyd a defnyddiwyd y dimensiynau ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu fel bod yr holl staff yn hyderus wrth ymgymryd ag ymholi myfyriol yn unigol ac ar y cyd. Mae hyn yn sicrhau bod y brif flaenoriaeth o sicrhau deilliannau uchel i ddysgwyr yn parhau.

## Effaith y grant ar ddysgwyr

Mae'r pwyslais ar addysgeg wedi cael effaith sylweddol ar ddull dysgwyr o ddysgu. Cafodd dysgwyr eu cynnwys yn y broses o nodi'r nodweddion dysgu sy'n symud y dysgu ymlaen. Mae'n ymddangos bod gan y dysgwyr fwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu a'u bod yn gallu esbonio ar lafar sut a beth y maen nhw'n ei ddysgu.

Chwaraeodd y tîm Arweinyddiaeth Disgyblion ran arweiniol yn y gwaith o rannu'r diben ar gyfer y newid i amgylcheddau dysgu fel eu bod yn seiliedig ar annibyniaeth ac yn canolbwyntio ar ddisgwyliadau uchel.

Roedd dysgwyr hefyd yn rhan o werthuso'r broses i sicrhau bod eu safbwyntiau yn cael eu cymryd i ystyriaeth ac yn rhan o'r broses o wella'r ysgol.

## Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w cymhwyso ar draws yr ysgol

Mae gweledigaeth a rennir sy'n cymryd y blaenoriaethau cenedlaethol i ystyriaeth yn ganolog i ddysgu proffesiynol yn Ysgol Gynradd y Coed Duon. Mae ethos cefnogol o gydweithredu, ymholi a myfyrio yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel o ran deilliannau dysgwyr wedi creu diwylliant cadarnhaol ar gyfer newid. Mae aelodau staff ar bob lefel yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i gymryd risgiau i arloesi gyda'i gilydd.

## Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w rhannu ag ysgolion eraill

Mae'r dimensiynau ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu yn ddull effeithiol i gynorthwyo dysgu proffesiynol. Fe'u defnyddiwyd i werthuso'r dysgu proffesiynol a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y ffordd ymlaen. Mae dealltwriaeth unedig o'r hyn y mae dysgu proffesiynol ysgol gyfan yn ei olygu yn sicrhau bod yr holl aelodau staff yn cydweithio i greu sefydliad sy'n dysgu effeithiol.